Caiff y negeseuon craidd hyn hefyd eu hymgorffori mewn ystod o bolisiâu gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae *Y Wlad sy'n Dysgu: Llwybrau Dysgu 14-19* yn cydnabod yr angen am elfennau arbrofol yn natblygiad pobl ifanc. Mae'r *Cynllun Gweithredu Entreprenoriaeth a Cymru o Blaid Arloesi* yn tanlinellu pwysigrwydd cenhedu'r diwylliant a'r hinsawdd iawn ar gyfer llwyddiant cynhenid.

Mae'r *Arolwg Sgiliau Generig 2003 Sgiliau Difodol Cymru* yn tanlinellu ymhellach yr arwyddocâd a ymlynir gan gyflogwyr Cymru i sgiliau 'meddal' megis gweithio mewn tîm, creadigedd a gweithrediad.

Edrychwn ar ddatblygiad sgiliau entreprenoriaeth, gwerthoedd ac agweddau fel rhan o lwybr oes o ddysgu sydd yn hanfodol i brofiadau person ifanc, o'r ysgol drwy goleg a phrifysgol i'r byd gwaith.

Mae'r caffaediadau a'r profiadau hyn yn berthnasol a chymwys o fewn holl gamau addysg ffurfiol a thu hwnt - mewn gwaith, wrth ddechrau busnes, a thrwy oes o osod targedau gyrfa a dysgu personol.

Cadarnha **ie** fod sgiliau entreprenoriaeth yn ehangach na chreu busnesau newydd yn unig. Mae arnom angen entreprenoriaid o fewn y sector gyhoeddus ac entreprenoriaid cymdeithasol i foderneiddio gwasanaethau cyhoeddus a chryfhau potensial cymunedau, yn ogystal â'r rheiny sydd yn creu ac yn rheoli eu busnesau cynhenid eu hunain.

Mae **ie** yn cydnabod bod camau cadarn eisoes yn cael eu cymryd tuag at nodau a thargedau allweddol. Mae'n cynnig modelau cyffredin o ddysgu a gweithredu entreprenoriaeth i bob partner yng Nghymru weithio tuag atynt. Yn ganolog i'w llwyddiant bydd ffocws clir ar anghenion ein

pobl ifanc wrth iddynt wneud eu ffordd drwy'r llwybr dysgu.

Mae gwaith pwysig eto i'w gyflawni, o godi ymwybyddiaeth a newid agweddau, i gynyddu gallu ein pobl ifanc i adnabod ac achub ar gyfleon menter. Nid ar bobl ifanc yn unig yr effeithir y newid diwylliannol hwn, ond ar y canolwyr a'r sefydliadau a gaiff dylanwad arnynt.

Dymuna Llywodraeth Cenedlaethol Cymru a WDA ddiolch i'r holl bartneriaid sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r Strategaeth hon. Edrychwn ymlaen at ei gweithredu gyda chi.

Jane Davidson AM, Gweinidog Addysg & Dysgu Cydol Oes

Andrew Davies AM, Gweinidog Datblygu Economaidd & Thrafnidiaeth



+ cyflwyniad

Mae'r Strategaeth hon yn darparu model cyffredin o ddysgu entreprenoriaeth ynghyd â fframwaith gweithredu a fydd yn galluogi pobl ifanc yng Nghymru i ddatblygu ymwybyddiaeth o entreprenoriaeth ac awydd i weithredu.

Bwriad y Strategaeth Menter ac Entreprenoriaeth leuenctid i Gymru yw cyfrannu at nodau Cymru: *Gwlad Well drwy'r Cynllun Gweithredu Entreprenoriaeth* (CGE) gan gefnogi ac annog entreprenoriaeth ymhliith pobl ifanc. Drwy weithio mewn partneriaeth, fe anela yn arbennig at:

- **alluogi ein sistem addysg i gyfrannu at greu diwylliant mwy mentrus**
- **hyrwyddo sgiliau menter y tu allan i addysg ffurfiol**
- **annog ymddygiad entreprenaidd mewn cyflogaeth**
- **ddatblygu'r strwythur gweithredu**
- **wella mynediad unigolion i gyfleo'n a llwybrau dysgu**

Cafodd y Strategaeth hon ei datblygu gan WDA mewn cydweithrediad â nifer o bartneriaid fel rhan o broses ymgynghori helaeth ac ymarfer mapio yn ystod 2003. Bu mewnbwn nifer o'r cyfranwyr a restrir yn Atodiad 2 yn arwyddocaol wrth lunio'r ddogfen hon.


WDA fydd y prif gorff i weithredu'r Strategaeth hon fel rhan o Gamau Allweddol 1 a 2 y CGE ond, gan gydnabod yr angen am weithrediad ar y cyd gan nifer o asiantaethau a mudiadau, fe gaiff ei gwaith ei lywio gan Banel Monitro a Gwerthuso a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r prif hapddalwyr mewn datblygu economaidd ac addysg.

Am gopiâu o strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru megis *Cymru'n Ennill, Y Wlad sy'n Dysgu: Llwybrau Dysgu 14-19 a Cymru o Blaid Arloesi*, cyfeiriwrh at wefan y Cynulliad Cenedlaethol www.wales.gov.uk

Mae copiâu o'r ddogfen hon a'r *Cynllun Gweithredu Entreprenoriaeth* ar gael gan y WDA:
Ffôn: 08457 77 55 66
Ebost: ymholiadau@wda.co.uk
Gwefan: www.wda.co.uk


I ddefnyddwyr testun defnyddiwr y rhagddodiad 18001 08457 77 55 77 ar gyfer cyfleuster 'RNID Typetalk'.

Mae'r wybodaeth yma hefyd ar gael mewn print bras, Braille 'Moon' a fformatiau clywedol. Cysylltwch â ni am fanylion pellach.



+ cyd-destun

Mae'r 'angen' economaidd, sef cyd-destun y Strategaeth hon, bellach yn un cyfarwydd. Mae agenda strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cymru: Gwlad Well, yn hyrwyddo gweledigaeth am "economi wahanol, cystadleuol, gwerth uchel gyda sgiliau ac addysg o ansawdd uchel, sydd yn lleihau gofyniadau ar yr amgylchedd."*



Yn ei Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol, *Cymru'n Ennill*, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod targedau uchelgeisiol i wella perfformiad yr economi Gymreig dros y 10 mlynedd nesaf. Caiff nifer o'r targedau hyn eu gweithredu drwy Gynlluniau Gweithredu sydd â ffocws ar themâu allweddol megis Sgiliau a Chyflogaeth, Arloesi ac Entreprenoriaeth, wrth ochr ystod o gynlluniau a strategaethau eraill. Amlinellir perthynas rhai o'r rhain i *Cymru'n Ennill* yn y diagram gyferbyn.





Mae'r darlun presennol yn dangos diweithdra isel mewn cymhariaeth â chyfartaledd y DU ond lefelau uwch o ddiffyg gweithgaredd economaidd. Nodweddir busnes gan niferoedd cymharol uchel o fusnesau mewn sectorau gwerth isel a nifer fach o fusnesau yn yr economi wybodaeth, lle mae mwy o botensial am dwf. Mae CDG Cymru y pen yn parhau i orwedd y tu ôl i ran fwyaf o ranbarthau eraill y DU a nifer o gyfatebwyr Ewropeaidd.

Mae hyrwyddo menter a meithrin busnesau a swyddi gwerth uchel ar draws pob cymuned yn nodau strategol allweddol. Cyfraniad menter ac entrepreneuriaeth yn y cyd-destun hwn yw cynyddu cystadleugarwch busnesau, annog blaengaredd a 'newydd-deb' yn yr economi, darparu meithrinfa am dwf i'r dyfodol, cynyddu hyblygrwydd economaidd, creu swyddi a lleihau allgáu cymdeithasol. Un agwedd sylfaenol o wella perfformiad economaidd fydd i leihau'r lefel o anweithgaredd economaidd drwy godi lefelau cyrhaeddiad ac uchelgais yn ein pobl ifanc.

Prif gaffaeliad Cymru wrth ghyflawni'r nodau hyn yw ein pobl ifanc, eu sgiliau, uchelgais ac egni. Os yw Cymru am fod yn fan lle mae mwy o bobl am greu a thyfu busnesau cynaliadwy, mae'n rhaid i'r cyfleoedd dysgu gydol oes cywir a'r gefnogaeth sgiliau fod mewn lle.

Mewn cymuned UE mwy ac economi byd-eang, nid yw cystadlu ar sail costau llafur rhatach yn ddewis cynaliadwy i Gymru. Cynyddu lefel sgiliau, cyrhaeddiad a blaengaredd yw'r ffordd ymlaen. Mae'n hanfodol bwysig fod ein pobl ifanc yn gallu ac yn barod i ymateb yn hyblyg i'r cyfleoedd niferus a'r sialensiau sydd o'u blaenau. Fe ddylwn adnabod hefyd y bydd yn rhaid i ni fod yn ddyeisgar ac yn benderfynol wrth weithredu'r newid hwn, gan ystyried fod *Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth yr Undeb Ewropeaidd* wedi gosod agenda tebyg ar gyfer gweddill yr UE.

Mae gweithredoedd sydd yn deillio o'r *Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth a Y Wlad sy'n Dysgu: Llwybrau Dysgu 14-19* eisoes

yn symud ymlaen i gyflawni'r nodau hyn. Mae'r *Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth* hefyd yn adnabod ffyrdd i bontio'r agenda addysg, sgiliau ac economi. Nid yw'r cyswllt rhwng busnes ac addysg yn foethusrwydd - mae'n hanfodol i gynaladwyedd yn yr hirdymor a gall esgor ar fuddiannau yn uniongyrchol.

Mae'r angen am ddysgu menter ac entrepreneuriaeth yn bwysig er mwyn helpu cyflawni'r nodau hyn drwy:

- baratoi ein pobl ifanc gydag agweddau hyderus a chadarnhaol tuag at entrepreneuriaeth
- arfogi ein pobl ifanc â'r sgiliau, gwerthoedd a phrofiadau sydd eu hangen i fod yn entrepreneuriaidd mewn ffordd effro, gweithredol a llwyddiannus

Bydd gosod y sylfeini hyn yn eu lle yn helpu i ddechrau siwrnai entrepreneuriaeth ein pobl ifanc ac yn gwneud y broses o ailgydio yn y llwybrau hyn yn y dyfodol yn llawer mwy effeithiol.

+ gweledigaeth

Datblygu a meithrin pobl ifanc hunangynhaliol ac entreprenaidd ym mhob cymuned ar draws Cymru, a fydd yn **cyfrannu'n gadarnhaol at lwyddiant economaidd a chymdeithasol.**

Mae **ie** yn datgan ymrwymiad at arfogi ein pobl ifanc gyda'r dyhead, hyder, profiad a sgiliau i fod eisiau creu cyfleoedd iddynt hwy eu hunain.

Wrth galon y Strategaeth hon y mae dealltwriaeth glir nad yw entreprenaeth yn rhywbeth sy'n gynhenid mewn nifer fach o bobl arbennig yn unig.

Mae addysg Entrepreneuriaeth ynghlwm â datblygu agweddu a sgiliau pobl ifanc i'w helpu i gyflawni eu potensial. Y mae hefyd yn ymwneud â chael yr awydd i droi syniadau a chyfleoedd yn realiti, gan alluogi pobl ifanc i fod yn bositif, rhagweithiol a llwyddiannus yn eu golwg o fywyd a gwaith.

Mae addysg **Menter** ynghlwm â rhoi'r cyfle i bobl ifanc ddefnyddio eu sgiliau a datblygu dealltwriaeth mewn ffyrdd ymarferol.

Mewn realiti, mae'r gweithredoedd a argymhellir yn y Strategaeth hon yn cynnwys addysg entreprenaeth a menter mewn modd integredig.



Mae model wedi'i ddatblygu i ddeall a dysgu entreprenaeth, sydd am y tro cyntaf, yn gwahaniaethu rhwng sgiliau trosglwyddadwy ac allbynnau mesuradwy. Mae'r model hwn yn rhoi strwythur ystyrlon i'r cysniad o entreprenaeth, drwy atodi sgiliau angenrheidiol ato.

Mae'r model **ACPT** yn cyflwyno pedwar dimensiwn allweddol o ymddygiad entreprenaidd: **Agwedd**, **Creadigedd**, **Perthynas** a **Trefniadaeth**.

Agwedd

- Hunan wybodaeth, ffydd a hyder
- Cymhelliad
- Penderfyniad
- Dyhead
- Cystadleuaeth

Creadigedd

- Datrys problemau
- Dyfeisgarwch
- Adnabod a chreu cyfleoedd
- Meddwl ochrol a sbarduno syniadau

Perthynas


- Cyfathrebu
- Gweithio gydag eraill
- Rheoli sefyllfaedd anodd
- Trafod, argyhoeddi a dylanwadu
- Cyflwyno

Trefniadaeth

- Cynllunio
- Rheoli adnoddau
- Gwneud penderfyniadau
- Rheoli risg
- Ymchwil a deall yr amgylchedd
- Gweledigaeth a gosod nodau



Mae **ie** yn cynnig gweithredu'r model hwn o addysg entrepreneuriaeth drwy dri prif Parth Gweithredu sydd wedi eu seilio ar Ymwybyddiaeth, Dysgu a Cefnogi.



+ y cynllun


- 1. Ymwybyddiaeth** Datblygu'r diwylliant
- 2. Dysgu** Arfogi pobl ifanc â'r sgiliau, gwybodaeth a phrofiad perthnasol
- 3. Cefnogi** Darparu isadeiledd cefnogi effeithiol sy'n cael ei arwain gan alw

Caiff y Parthau Gweithredu yn y Strategaeth hon eu cyflawni drwy nifer o llynnaau gwaith.

Mae llawer o'r llynnaau hyn eisoes yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus gan ystod o asiantaethau, sefydliadau a mudiadau. Ble mae bylchau neu gyfleoedd newydd wedi eu hadnabod, y mae modd


ymateb mewn sawl achos drwy integreiddio llynnaau gwaith cyflenwol, gweithio mewn partneriaeth a thrwy wneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau presennol.

Caiff y Parthau Gweithredu a'r Gweithrediadau Atodol eu hamlinellu yn Atodiad 1, ynghyd â chyfrifoldebau arwain ac amserlenni.



+ y cynllun

Parth Gweithredu 1 Ymwybyddiaeth – Datblygu'r diwylliant



- **Gweithredu ymgrych gyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o fenter ac entrepreneuriaeth ymhliith pobl ifanc**
- **Annog yr holl ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig i gynnwys strategaeth ar gyfer menter ac entrepreneuriaeth o fewn eu cynlluniau datblygu**
- **Cefnogi'r holl sefydliadau AB ac AU i osod entrepreneuriaeth o fewn eu prosesau cynllunio strategol**
- **Cefnogi CCETs, YPPs a Rhwydweithiau 14-19 i ddatblygu rôl strategol i ysgogi addysg entrepreneuriaeth**
- **Annog yr holl fudiadau sydd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc, o fewn a thu allan i addysg ffurfiol, i gynnwys menter ac entrepreneuriaeth yn eu darpariaeth**
- **Cefnogi cyflogwyr i hyrwyddo gwerth entrepreneuriaeth i'w cyfleoedd i groesawu'r cysniad o 'intrapreneuriaeth'**

Nod allweddol yn y Strategaeth hon yw creu diwylliant mentrus ymhliith ein pobl ifanc. Y mae yr un mor bwysig, foddy bynnag, bod sefydliadau a chanolwyr yn cael eu hargyhoeddi o werth diwylliant mentrus ac yn ei osod yn eu hethos sefydliadol.

O dan Cam Allweddol 1 o'r CGE, mae'r prosiect Dynamo eisoes yn gwneud cynnydd wrth ddatblygu agweddu pobl ifanc mewn ysgolion. Bydd y cynllun hwn hefyd nawr yn ffocysu ar anghenion pobl ifanc yn yr amgylchedd ôl 16 ac yn darparu eglurder a chyfeiriad i sefydliadau a mudiadau canolog.

Mae gan Awdurdodau Addysg Lleol, Ilywodraethwyr ysgol a phrifathrawon rhan bwysig i chwarae i annog mabwysiadu'r Strategaeth hon, wrth ddarparu cyngor, hyrwyddo arfer da a monitro cynnydd.

O fewn Addysg Bellach ac Addysg Uwch, mae Pencampwyr Menter WDA yn chwarae rhan ganolog yn natblygiad strategaethau sefydliadol ac yn y cyswllt â myfyrwyr.

Mae i'r Consortia Cymunedol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant (CCETs), Rhwydweithiau 14-19 a Phartneriaethau Pobl Ifanc (YPPs) rôl strategol i godi proffil entrepreneuriaeth.

Mae cysylltu â phobl ifanc y tu allan i'r system addysg ffurfiol, yn enwedig y di-waith ifanc, yn her. Ni fydd hunangyflogaeth na dechrau busnes yn cael ei ystyried fel llwybr gyrra posibl gan lawer, ond drwy weithio mewn partneriaeth â Gyfra Cymru a Canolfan Byd Gwaith, yn ogystal â mudiadau ieuenctid a chymunedol, mae cyfleoedd i gysylltu â'r grŵp hwn er mwyn adeiladu hyder ac ysgogiad.

Yn y modd mae *Sgiliau Dyfodol Cymru* wedi dangos, mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi agweddu mentrus yn eu cyfleoedd i groesawu'r cysniad o 'intrapreneuriaeth'. Gall WDA chwarae rhan arweiniol yn annog cyflogwyr sector gyhoeddus i groesawu'r cysniad o 'intrapreneuriaeth'.

Bydd yn rhaid i'r sector breifat ei hun ddangos ei ymrwymiad drwy gyflwyno modelau rôl cadarnhaol i bobl ifanc. Mae partneriaid megis Siambrau Masnach, CBI, IoD, FSB a'r Undebau Masnach oll mewn sefyllfa dda i hyrwyddo'r buddiannau o gysylltu ag addysg a hyrwyddo gwerth sgiliau entrepreneuraidd i'w haelodau.

+ y cynllun

Parth Gweithredu 2 Dysgu – Arfogi pobl ifanc â'r sgiliau, gwybodaeth a phrofiad perthnasol

- Gosod menter ac entrepreneuriaeth o fewn cwricwlwm yr ysgol
- Gosod menter ac entrepreneuriaeth o fewn datblygiad cwricwlwm AB ac AU
- Amlhau'r defnydd o adnoddau presennol a datblygu deunyddiau newydd i gefnogi dysgu menter ac entrepreneuriaeth, o fewn a thu allan i addysg ffurfiol
- Darparu cyfleoedd i ddefnyddio sgiliau entrepreneuraid

Bydd gosod menter ac entrepreneuriaeth fel thema drawstoriadol yn ein system addysg yn sicrhau bod ein pobl ifanc mewn gwell sefyllfa i ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd. Bydd WDA ac ACCAC yn cefnogi'r broses hon drwy ddatblygu a dosbarthu deunyddiau at ddefnydd ysgolion a cholegau. Mae rôl bwysig gan yr Awdurdodau Addysg Lleol i hyrwyddo defnydd o'r deunyddiau hyn.

I sicrhau y caiff deunyddiau eu defnyddio'n effeithiol yn y dosbarth, mae'n hanfodol cael meincnodau ansawdd o'r dechrau.

datblygu eu dealltwriaeth hwy o fuddiannau addysg menter ac addysg entrepreneuriaeth. Dylai'r hyfforddiant ar ddefnyddio'r deunyddiau gynnwys dealltwriaeth o'r cysniad o entrepreneuriaeth.

Bydd yn rhaid i HEFCW a ASA(QAA) chwarae rhan cyffelyb yn cefnogi ac yn galluogi sefydliadau addysg uwch i sefydlu menter ac elfennau entrepreneuriaeth o fewn eu cyrsiau presennol a newydd.

I'r diben hwn, dylid integreiddio meincnodau ansawdd o'r dechrau.

Bydd WDA yn gweithio gyda phartneriaid, a fydd yn cynnwys ymhliith eraill, unigolion sydd yn gysylltiedig ag addysg entrepreneuriaeth ac entrepreneuriaid, i ddatblygu adnoddau ychwanegol at ddefnydd dysgu mentergarwch o fewn a thu allan i addysg ffurfiol. Caiff y gwaith hwn ei gyfeirio gan yr ymarfer mapio o weithgareddau presennol a gyflawnwyd yn 2003.

Mae rhoi'r cyfle i bobl ifanc ddatblygu eu gwybodaeth a'u profiad o fenter yn hanfodol os ydynt am ddechrau eu hoes gwaith gyda'r hyder i

weithredu mewn ffyrdd entrepreneuraid. Tra bod gweithgaredd cysylltu addysg a busnes eang ac ystod o gyfleoedd ôl-gwriciwlars, gyda nifer o enghreifftiau o arfer da, mae'r ddarpariaeth yn amrywio ar draws Cymru. Bydd WDA yn parhau i weithio'n agos â phartneriaid allweddol i sicrhau bod ystod o gyfleoedd ar gael ar bob cam o ddatblygiad person ifanc.



+ y cynllun

Parth Gweithredu 3 Cefnogi – Darparu isadeiledd cefnogi effeithiol sy'n cael ei arwain gan alw.

- **Gweithredu ymgrych farchnata wedi'i dargedu at rai o dan 25oed**
- **Datblygu gwasanaeth cefnogi busnes gyda ffocws ar y cwsmer**
- **Hyrwyddo arfer da a datblygu rhwydweithiau cefnogi ei gilydd**
- **Hwyluso arloesi, trosglwyddo gwybodaeth a masnacheiddio**

Canran bychan o bobl ifanc yn unig fydd yn penderfynu dechrau busnes pan fyddant o dan 25 oed ond i'r rheiny sydd yn penderfynu gwneud hynny, mae'n holl bwysig bod isadeiledd gefnogi ymatebol mewn lle. Mae eu diffyg hyder, sgiliau a phrofiad yn eu gosod ar wahân i entrepreneuriaid eraill sydd yn dechrau busnes ac mae eu hanghenion yn gofyn am ymateb arbenigol. Mae eu potensial i ddechrau busnesau mewn sectorau newydd yn hanfodol i ddatblygiad yr economi wybodaeth.

Yn y lle cyntaf, mae hyn yn golygu datblygu ymgrych farchnata integredig ar gyfer y gynulleidfa

darged hon fel rhan o strategaeth gyfathrebu y CGE, gyda Llygad Busnes yn gweithredu fel porth i gyfeirio cleientiaid.

Y mae amryw o wahanol gynlluniau cefnogi busnes yn targedu entrepreneuriaid ifanc. Mae angen siapio'r gynlluniau hyn yn un gwasanaeth cefnogi integredig fydd yn cynnwys hyfforddiant, mentora, ymgynghori a chefnogaeth ariannol, a fydd yn briodol i bob unigolyn.

Yn ystod y broses o ddechrau busnes, dylai'r pwyslais aros ar ddysgu a datblygu sgiliau er mwyn gwella llwyddiant a chynaladwyedd y busnesau newydd hyn.

Tra ei bod yn bwysig lledaenu arfer da ymhliith sefydliadau, mae hefyd yn angenrheidiol i entrepreneuriaid ifanc ddatblygu perthynas â chyfoedion a mentoriaid o fewn y gymuned fusnes ehangach.

Awgryma dystiolaeth yn grif fod entrepreneuriaid llwyddiannus yn aml yn ceisio cyngor a chefnogaeth oddi wrth entrepreneuriaid eraill. Mae clybiau menter yn cynnig cyfle i ddatblygu cysylltiadau o'r fath.

Mae arloesi ac entrepreneuriaeth yn rhannu nifer o nodau cyffredin ac mae buddiannau arwyddocaol i'w cael o integreiddio gweithgareddau'r CGE a Cymru o Blaid Arloesi yn



agosach. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu'r nifer o syniadau hyfwy ac arloesol trwy drosglwyddo gwybodaeth mewn Addysg Bellach ac Addysg Uwch; datblygu amgylcheddau o ansawdd uchel i'r syniadau hyn allu blodeuo ynddynt, megis canolfannau deori, Technium a CETICs (Canolfannau Rhagoriaeth ar gyfer Cydweithredu Technoleg a Diwydiannol); ac amlhau'r cyfleoedd masnachol drwy gynlluniau megis y Ganolfan Masnacheiddio Technoleg a Rhaglen Deillio Cymru.

Mewn Addysg Uwch, bydd gweithgaredd datblygu economaidd yn cael ei hwyluso drwy ymgorffori mentrau cynharach i mewn i Gronfa Trydydd Cenhadaeth HEFCW.

-+ monitro a gwerthuso

Dylid ystyried ie fel buddsoddiad hirdymor ym mhotensial entrepreneuraid, hyder, sgiliau a doniau pobl ifanc Cymru.

Er mwyn mesur effaith, mae'n bwysig cael y cyfuniad iawn o ddangosyddion meintiol ac ansoddol. Bydd WDA yn comisiynu'r ymchwil hwn mewn partneriaeth â LICC, Estyn ac ACCAC.

Bydd gan broiectau a chynlluniau unigol eu prosesau monitro a gwerthuso eu hunain mewn lle. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig ein bod yn gwerthfawrogi effaith y Strategaeth yn ei chyfanwyd.

Sefydlir Panel Monitro a Gwerthuso i lywio'r ymateb i anghenion strategol newidiol. Bydd y Panel yn cynnwys cynrychiolaeth o'r prif hapddalwyr mewn datblygu economaidd ac addysg.



Mesur Effaith Ansoddol

- Sefydlu gwaelodlin o sgiliau entrepreneuraid ac agweddau at entrepreneuriaeth ymhlieth pobl ifanc er mwyn galluogi monitro a gwerthuso **ie** dros gyfnod drwy astudiaeth dracio. Defnyddir model ACPT a'i gyd-adrannau i fesur gwerth ychwanegol ac effaith ar unigolion. Gall hyn fod yn sail i arolygaeth thematig gan Estyn yn yr hirdymor.
- Sefydlu meincnodau ansawdd i sicrhau gwelliant parhaus yn y deunyddiau, adnoddau a gweithgareddau.

Mesur Effaith Meintiol

- Mesur yn erbyn targedau cynlluniau a phroiectau unigol, gan gynnwys yn arbennig:
 - nifer o bobl ifanc sydd yn cael profiad o addysg menter ac entrepreneuriaeth
 - nifer o bobl ifanc sydd yn ystyried hunangflogaeth fel dewis gyrrfa posibl
 - Mesur cynnydd yn erbyn set o arwyddion perfformiad lefel uwch, gan gynnwys:
 - lefelau o anweithgaredd economaidd a diweithdra ymhlieth pobl ifanc
 - lefelau o weithgaredd entrepreneuriaidd ymhlieth rhai o dan 25
 - y nifer o fusnesau newydd mewn sectorau sydd yn gysylltiedig â phobl ifanc (e.e. diwydiannau creadigol, technoleg gwybodaeth)
 - data cymharol oddi wrth rhanbarthau Ewropeidd a byd-eang eraill

+ atodiad 1: cynllun gweithredu

Ymwybyddiaeth – Datblygu'r Diwylliant

Parth Gweithredu	Prif Gorff	Gweithredoedd Atodol	Dyddiad Dechreuad Targed
Gweithredu ymgrych gyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o fenter ac entrepreneuriaeth ymhlieth pobl ifanc.	WDA	Datblygu ac ehangu ymgrych gyfathrebu a rhaglen modelau rôl Dynamo a'r arddangosfa deithiol arloesol Pod.	Parhau
	WDA	Cefnogi gwaith y mudiadau partner drwy ddatblygu deunyddiau adnodd perthnasol a chynyddu'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfrngau newydd.	2004
	WDA / Gyrfa Cymru	Gweithredu rhaglen hyfforddiant i athrawon, cyngorwyr gyrrfa ac eraill yn y dealltwriaeth o entrepreneuriaeth a'r defnydd o ddeunyddiau ac adnoddau.	2005
	WDA / Gyrfa Cymru	Datblygu calendr o ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth a gwobrau, e.e. Wythnos Fenter, Gwobr Ansawdd Gyrfa Cymru.	2004
	WDA / HEFCW	Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd sydd yn bodoli i bobl ifanc yng Nghymru ac i'r rheiny sy'n dymuno dychwelyd i Gymru, drwy gynlluniau megis Llwybro a GO Wales.	Parhau
Annog yr holl ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig i gynnwys strategaeth ar gyfer menter ac entrepreneuriaeth o fewn eu cynlluniau datblygu.	Awdurdodau Lleol	Adeiladu cysylltiadau rhwng Cynlluniau Datblygu Economaidd & Adnewyddu Lleol a Chynlluniau Datblygu Addysg.	2005
	AALI	Cynnwys menter ac entrepreneuriaeth mewn arweiniad i gynlluniau datblygu ysgolion.	2005
	Llywodraethwyr	Cynorthwyo ysgolion i ddatblygu, cynllunio a monitro gweithrediad addysg menter a mentergarwch.	2006
	Prifathrawon	Annog cynnwys menter ac entrepreneuriaeth fel rhan o bortffolio arweinwyr cwricwlwm ysgolion.	2005

Parth Gweithredu	Prif Gorff	Gweithredoedd Atodol	Dyddiad Dechreuad Targed
Cefnogi'r holl sefydliadau AB ac AU i osod entrepreneuriaeth o fewn eu prosesau cynllunio strategol.	ELWa	Mabwysiadu golwg strategol i addysg entrepreneuriaeth mewn prosesau cynllunio blynnyddol holl ddarparwyr ôl 16 e.e. cynlluniau sefydliadol AB.	2004
	WDA	Gweithio gyda sefydliadau AB ac AU i ddatblygu a monitro cynlluniau entrepreneuriaeth strategol sefydliadol.	Parhau
	HEFCW	Gweithio gyda sefydliadau AU i osod amcanion ar gyfer menter ac entrepreneuriaeth drwy gynlluniau Trydydd Cenhadeth a strategaethau dysgu ac addysgu sefydliadau addysg uwch.	Parhau
	SABau / SAUau	Cynnwys menter ac entrepreneuriaeth o fewn portffolio aelod o uwch dîm reoli/cyfarwyddiaeth sefydliad.	Parhau
	SABau / SAUau Fforwm	Cynllunio a monitro gweithrediad y strategaeth a rhannu arfer da yn fewnol ac yn allanol e.e. sefydlu Grwpiau Llywio Entrepreneuriaeth a Menter.	Parhau
Cefnogi CCETs, YPPs a Rhwydweithiau 14-19 i ddatblygu rôl strategol i ysgogi addysg entrepreneuriaeth.	ELWa	Cynnwys arweiniad priodol i CCETs ar sut i drin addysg entrepreneuriaeth o fewn argymhellion blynnyddol CCET.	2005
	LLCC	Annog Rhwydweithiau 14-19 a YPPs i ffocysu ar godi ymwybyddiaeth o addysg entrepreneuriaeth.	2005
Annog yr holl fudiadau sydd yn gweithio gyda phant a phobl ifanc, o fewn a thu allan i addysg ffurfiol, i gynnwys menter ac entrepreneuriaeth yn eu darpariaeth.	WDA	Annog mudiadau ieuencid i fanteisio ar entrepreneuriaeth a menter yn eu gweithgareddau a rhagleni.	2005
	Gyrfa Cymru / Partneriaid Gweithredu	Gweithredu Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth Gyrfa Cymru.	Parhau
	Gyrfa Cymru / Partneriaid Gweithredu	Adolygu dulliau gweithredu gyda'r golwg o amlhau cyfleo i fyfyrwyr ddatblygu nodweddion mentrus.	2005
Cefnogi cyflogwyr i hyrwyddo gwerth entrepreneuriaeth i'w cyflogeon ifanc.	WDA	Gweithio gyda partneriaid, gan gynnwys CBI, FSB, IoD, Siambrau Masnach ac Undebau Llafur i hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau sgiliau entrepreneuriaeth ymhlieth cyflogwyr.	Parhau
	WAG	Cysylltu â Gwobr Cyflogwr ynglŷn ag addysg sy'n berthnasol i waith i godi ymwybyddiaeth o fuddiannau entrepreneuriaeth.	2006
	WDA	Annog sefydliadau sector gyhoeddus i ddatblygu modelau 'intrapreneuriath'. Fel rhan o'r broses hon, annog secondiadau a lleoliadau gwaith yn y sector breifat.	2005
	ELWa	Datblygu elfen menter ac entrepreneuriaeth o fewn Gwobr Buddsoddwyr mewn Pobl.	2005

+ atodiad 1: cynllun gweithredu

Dysgu – Arfogi pobl ifanc â'r sgiliau, gwybodaeth a phrofiad perthnasol

Parth Gweithredu	Prif Gorff	Gweithredoedd Atodol	Dyddiad Dechreuad Targed
Gosod menter ac entrepreneuriaeth o fewn cwricwlwm yr ysgol.	WDA / ACCAC	Datblygu, cyhoeddi a dosbarthu deunyddiau cwricwlwm menter ac entrepreneuriaeth.	Parhau
	WDA	Datblygu a darparu hyfforddiant perthnasol i ysgolion a cholegau ar ddefnyddio deunyddiau cwricwlwm.	2005
	AALI	Darparu cefnogaeth gynghorol i ysgolion ar gyfer gweithredu.	2005
	WDA	Datblygu adnoddau dysgu perthnasol gan danlinellu pwysigrwydd entrepreneuriaeth gymdeithasol.	2005
	WDA	Ymgorffori cyfleoedd hyfforddiant menter ac entrepreneuriaeth yn y Gronfa Gwell Ysgolion.	Parhau
	ACCAC	Darparu cyfeiriad i ysgolion ynglŷn â gweithredu'r cwricwlwm 5-19 diwygiedig, gan gynnwys hyrwyddo menter ac entrepreneuriaeth.	2007
	LICC	Cefnogi mabwysiadu triniaeth Estyn o entrepreneuriaeth yn eang, fel a ddisgrifiwyd yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin.	2005
Gosod menter ac entrepreneuriaeth o fewn datblygiad cwricwlwm AB ac AU.	SAU	Sefydlu canllawiau i osod menter ac entrepreneuriaeth o fewn y broses dilysiad.	2005
	Fforwm / QAA	Anog cynnwys menter ac entrepreneuriaeth o fewn pob meinchnod pwnc.	2006
	HEFCW / QAA / SAU	Sicrhau bod menter ac entrepreneuriaeth o fewn y fframwaith o gymwysterau AU.	2006
	Cyrrf Proffesiynol (e.e. ACCA / CIM) IEE / CIPD	Cydhabod menter ac entrepreneuriaeth o fewn prosesau achredu.	2005

Parth Gweithredu	Prif Gorff	Gweithredoedd Atodol	Dyddiad Dechreuad Targed
Amlhau'r defnydd o adnoddau presennol a datblygu deunyddiau newydd i gefnogi dysgu menter ac entrepreneuriaeth, o fewn a thu allan i addysg ffurfiol.	WDA / Gyrfa Cymru / Partneriaid Gweithredu	Datblygu adnoddau newydd fel yr adnabuwyd yn yr ymarfer mapio yn 2003.	Parhau
Darparu cyfleoedd i ddefnyddio sgiliau menter.	WDA / Partneriaid Gweithredu	Darparu pobl ifanc (14-19) â'r cyfleoedd i ddefnyddio sgiliau entrepreneuriaidd e.e. drwy AGG, gweithgareddau addysg busnes, Myfyrwyr mewn Menter Rhydd (SIFE).	Parhau

+ atodiad 1: cynllun gweithredu

Cefnogi – Darparu isadeiledd cefnogi effeithiol sy'n cael ei arwain gan alw

Parth Gweithredu	Prif Gorff	Gweithredoedd Atodol	Dyddiad Dechreuad Targed
Gweithredu ymgrych farchnata wedi'i dargedau at rai o dan 25 oed.	WDA	O dan Cam Allweddol 1 y CGE, datblygu ymgrych farchnata penodol i gyfeirio pobl ifanc at y gwasanaethau cefnogi a ddarperir.	2005
Darparu gwasanaeth cefnogi busnes gyda ffocws ar y cwsmer.	WDA / Partneriaid Gweithredu	Adolygu effeithlonrwydd cynlluniau presennol a'u hintegreiddio fel gwasanaethau cefnogi ar alw, i'r rheiny sydd yn dymuno dechrau busnes.	2004
	WDA	Darparu cefnogaeth barhaol i fusnesau sydd â photensial i dyfu.	Parhau
Hyrwyddo arfer da a datblygu rhwydweithiau cefnogi ei gilydd.	WDA	Hwyluso rhannu arfer da rhwng sefydliadau drwy gyfathrebu a digwyddiadau.	2005
	WDA / SABau / SAUau	Amlhau cyfleon rhwydweithio drwy ddatblygu clybiau menter.	2004
Hwyluso arloesedd, trosglwyddo gwybodaeth a masnach.	WDA	Hwyluso sbarduno syniadau arloesol trwy drosglwyddo gwybodaeth o fewn sefydliadau AB ac AU.	Parhau
	WDA / SABau / SAUau	Darparu amgylcheddau o ansawdd uchel i ddatblygu busnesau blaengar e.e. canolfannau deor, Technium, CETICS.	Parhau
	WDA	Cefnogi gwaith y Ganolfan Masnacheiddio Technoleg i adnabod cyfleon deillio twf-uchel.	Parhau
	HEFCW	Cynnwys cynlluniau cynharach yng Nghronfa Trydydd Cenhadaeth HEFCW, i weithredu ffrwd nawdd sengl i gefnogi gweithgareddau trydydd cenhadaeth mewn AU.	Parhau

+ atodiad 2: cyfranwyr

Addysg Statudol	Clive Jenkins	Llywodraeth Cynulliad Cymru
	Hugh Griffiths	ACCAC
	Lindy Hutchinson	Ysgol Uwchradd y Bontfaen
	James Mordecai	Ysgol Uwchradd y Bontfaen
	Sally Jenkins	Ysgol Uwchradd y Bontfaen
	Pam Tanner	CCET Abertawe
	Peter Evans	Ysgol Gynradd y Creigiau
	Philip Drakeford	Gyrfa Cymru Gorllewin
	Steve Hadley	Ysgol Arbennig Maesgwyn

Tu allan i Addysg Ffurfiol	Beth Titley	Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol
	Catherine Rees	Menter a Busnes
	Charles Middleton	Gwasanaethau Hyfforddi Cymru
	Graham Johnson	Llywodraeth Cynulliad Cymru
	Ingrid Lewis	WDA
	Liz Williams	Llywodraeth Cynulliad Cymru
	Marco Gil-Cervantes	Promo-Cymru
	Peter Williams	DTA Cymru
	Huw Bryer	Menter a Busnes

+

atodiad 2: cyfranwyr

Addysg Bellach

Alison Bryant	ELWa
Andy Johns	Coleg Dewi Sant, Caerdydd
Caroline Usei	Coleg Abertawe
Carolyn Donegan	Coleg Ystrad Mynach
Dave Henderson	Coleg Morgannwg
David Finch	Fforwm
Matthew Welsher	Coleg Gwent
Pat Jones	WDA
Rachel King	Coleg y Barri

Addysg Hwch

Carol Cresswell	Coleg Prifysgol Cymru Casnewydd
Carys Roberts	WDA
Chris Miller	Prifysgol Morgannwg
Roger Carter	Cyngor Ariannu Addysg Uwch Cymru
Gary Packham	Prifysgol Morgannwg
Nigel Thomas	Gwasanaeth Gyrfaoedd Prifysgol Caerdydd

Cefnogaeth Weithredol

Lorraine Beard	Enterprise Insight, Cymru
Daniel Jones	WDA
Sue Morgan	WDA

Diolch arbennig i:

Tina Marley	WDA
6721 Cyf	Caerdydd